PENTREF SOS Astudiaeth achos

Siop Griffiths
Gwynedd, Cymru

Credit: Siop Griffiths

Bum mlynedd yn ôl sefydlodd y gymuned leol fenter gymunedol o'r enw 'Dyffryn Nantlle 20/20' i helpu i ddarparu gweithgareddau a hyfforddiant i bobl ifanc i'w cysylltu â hanes a diwylliant lleol ac i ddathlu'r Gymraeg.

Roedd Dyffryn Nantlle 20/20 eisiau prynu ac adnewyddu Siop Griffiths, adeilad eiconig a hen siop nwyddau metel ym Mhenygroes a oedd wedi bod yn wag ers dros bum mlynedd. Roeddynt eisiau adnewyddu'r adeilad i gynnwys caffi, siop, cyfleusterau gwely a brecwast a busnes gweithgareddau awyr agored. Byddai'r prosiect yn ehangu prosiect gweithgareddau digidol a oedd wedi bod ar waith yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc leol, rhywbeth yr oedd angen mawr amdano.

Cysylltodd Dyffryn Nantlle 20/20 â Pentref SOS i ddatblygu cynnig i brynu ac adnewyddu'r adeilad.

MANYLION Y PROSIECT...

Prif bwyllgor Dyffryn Nantlle 20/20, ac arno 8 o bobl leol, a arweiniodd y prosiect.

Camau a gymerwyd gyda chymorth VSOS:

- Datblygu cynllun marchnata manwl i'w ddefnyddio i lunio achos busnes dros brynu'r adeilad.
- Cael cyngor proffesiynol ar TAW gan gyfrifydd lleol i ganfod y drefn lywodraethu fwyaf priodol i brynu a chynnal yr adeilad.
- Datblygu cynllun prosiect yn dangos beth oedd angen ei wneud, gan bwy a phryd.
- Aeth aelodau o'r pwyllgor i Ddigwyddiad Dysgu a Rhwydweithio Pentref SOS yn Wrecsam ar 23ain Mehefin 2016, gan ddysgu oddi wrth gyfranogwyr eraill Pentref SOS a oedd wedi cymryd rheolaeth dros gyfleuster cymunedol, gan gynnwys Myddfai a Thafarn Tyn-y-Capel.

Cadw mewn cysylltiad...

Ffôn: 08456 5453

Ebost: robin@wyfsd.org

Gwefan: www.dyffrynnantlle2020.wordpress.com

Facebook: www.facebook.comdn2020

Credit: Siop Griffiths

Yn dyfarnu arian Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from The National Lottery®

acre ACTION WITH COMMUNITIES IN RURAL ENGLAND

Ariannu'r prosiect...

Llwyddodd y pwyllgor i godi £53,000 gan dros 200 o drigolion lleol (gan gynnwys cyllido torfol) a sicrhau £10,000 mewn grantiau tuag at brynu'r adeilad.

Dysgu gan eraill ...

Mae Dyffryn Nantlle 20/20 hefyd wedi cael cymorth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, Co-Operative Mutual Solutions, Sylfaen Cymunedol, Pensaer Pensel ac ymgynghorwyr Burum – i ymgynghori â'r gymuned, llunio strwythur cyfreithiol a chofrestru'n Gymdeithas Budd Cymunedol, trefnu cynnig cyfranddaliadau cymunedol, datblygu amcanestyniadau ariannol manwl a dadansoddiad risg ar gyfer y cynllun busnes, ac ymgeisio am ganiatâd cynllunio.

HYN SYDD WEDI DIGWYDD...

Prynwyd yr adeilad ym mis Medi 2016 a sefydlwyd mudiad newydd, Siop Griffiths Cyf – Cymdeithas Budd Cymunedol a chanddi dros 150 o aelodau.

Mae Siop Griffiths Cyf yn gweithio gyda Menter Môn a Sefydliad Plunkett i ddatblygu cynllun busnes a chyflwyno ceisiadau am gyllid i greu llety, caffi a chanolfan greu ddigidol i bobl ifanc yn yr adeilad.

Pa gyngor fyddech grŵp trosglwyddo i brosiectau eraill yn edrych i wneud rhywbeth tebyg?

- Cysylltwch â grwpiau sydd wedi cynnal prosiect tebyg a mudiadau cymorth i'ch helpu i fireinio'ch syniadau.
- Yn hytrach nag agwedd 'bodloni a thrwsio', byddwch yn hyderus yn eich syniadau a'ch galluoedd i gyflawni'ch prosiect.

Beth sy'n dod nesaf?

- Ymhen dwy flynedd, bydd Siop Griffiths Cyf wedi gorffen y gwaith adnewyddu (o ganlyniad i geisiadau llwyddiannus am gyllid a chaniatâd cynllunio) a bydd yn agor yr adeilad.

Other useful sources of support...

Plunkett Foundation
www.plunkett.co.uk

Wales Co-Operative Centre
www.wales.coop

Menter Mon
www.mentermon.com

Sylfaen Cymunedol
www.sylfaencymunedol.org

DTA Wales

This case study was produced by DTA Wales as one of the Village SOS partners in Wales.

INFRASTRUCTURE AND COUNTRY PARTNERS

THE RURAL MEDIA COMPANY
RoseRegeneration
ROCKET SCIENCE
SENSCOT
FORTHSECTOR
wcva
Rural Community Network